

## PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 16 IONAWR 2024

Yn  
bressenol: Cynghorydd Wong (Cadeirydd)

Cynghorwyr Berman, Henshaw, Jenkins, Jones, Lloyd Jones,  
Shimmin a/ac Thomson

64 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Doedd dim.

65 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Jackie Jones fuddiant personol mewn eitem 6 fel ymddiriedolwr sefydliad sydd ynghlwm.

66 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

67 : STRATEGAETH AMWYNDER SGLEFRFYRDDIO CAERDYDD

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi gwybodaeth gefndirol i'r Aelodau i'w cynorthwyo i graffu ar adroddiad drafft Strategaeth Amwynder Sglefrfyrrddio Caerdydd, sydd i'w ystyried gan y Cabinet ar 18 Ionawr.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jennifer Burke (Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau), Jon Maidment (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd), Steve Morris (RhG Chwaraeon, Hamdden a Datblygu) a Mark Synan (Pensaer Tirlunio, Datblygu Parciau).

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, lle pwysleisiodd botensial y prosiect i helpu'r ddinas a phobl ifanc drwy feithrin lles corfforol a meddyliol. Roeddent yn adeiladu ar fwy o ddiddordeb mewn sglefrfyrrddio a chofleidio egwyddorion dylunio modern i adeiladu safleoedd hygyrch nad ydynt yn gofyn am ormod o waith cynnal a chadw gan gydnabod anghenion esblygol cymunedau Caerdydd. Roedd yn strategaeth weledigaethol a ddatblygwyd trwy ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid, ac yn cyd-fynd ag amcanion ehangach gan gynnwys Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Caerdydd a'i statws fel dinas sy'n dda i blant.

Ychwanegodd swyddogion fod stoc sglefrfyrrddio presennol y ddinas yn rhoi baich trwm ar y gyllideb cynnal a chadw flynyddol, felly roedd angen meddwl yn wahanol wrth symud ymlaen. Roedd parciau sglefrio presennol, a adeiladwyd yn bennaf o fframiau pren a dur, yn hawdd eu fandaleiddio, felly roeddent yn symud tuag at ffurfiau concrit, sydd â manteision sylweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus

trylwyr yn 2021 a derbyniodd 709 o ymatebion, ac roeddent wedi ymgysylltu'n helaeth â Chlwb Sglefrfyrrddio Caerdydd ac amryw adrannau'r Cyngor.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Trafododd y Pwyllgor sut y gellid ystyried y strategaeth yng ngwaith y Cyngor ar feysydd polisi eraill fel cynllunio a theithio llesol. Roedd swyddogion yn ymgysylltu â chydweithwyr drwy gydol y broses, gydag adrannau fel datblygu economaidd, priffyrdd, tai a chynllunio yn ymwneud yn agos. Gallai parciau sglefrio gael eu cynnwys mewn cynlluniau tir cyhoeddus datblygiadau mawr, gydag enghreifftiau diweddar fel Parc y Maltings yn y Sblot yn dangos sut y gallai hyn weithio'n dda.

Trafododd yr Aelodau y strategaeth gyllido a chawsant sicrwydd y byddai cynghorwyr ward yn cael eu hymgyngori yn unol â'r broses arferol gyda chronfeydd A106. Nid oedd ceisiadau cyfalaf ar agor ar hyn o bryd oherwydd y cyd-destun ariannol, ond roedd swyddogion yn obeithiol y gallai hyn fod yn ffynhonnell o gyllid yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai cynghorwyr ward yn cael gwybod am y Strategaeth, a nodwyd datganiad y Cynghorydd Burke y byddai'n cysylltu â'r aelodau ward ac yn esbonio'r manteision cadarnhaol.

Clywodd y Pwyllgor fod costau cynnal a chadw yn sbardun allweddol y tu ôl i'r strategaeth, ac y byddai symud o ddur a phren i goncrit yn lleihau costau tymor hir tra hefyd yn eu galluogi i wella safleoedd presennol. Ychwanegodd swyddogion mai bwriad parciau sglefrio oedd bod yn hygyrch a chynhwysol, gan letya sglefrwyr newydd yn ogystal â'r rhai sydd â mwy o brofiad.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd gwneud unrhyw ran o'r gwaith hwn yn fewnol, a chlywsant na fyddai hynny'n bosibl gan nad oedd ganddynt y sgiliau angenrheidiol. Gallai fod yn heriol dod o hyd i gontractwyr, ar gyfer rhaglenni seilwaith cyffredinol yn ogystal ag arbenigwyr parc sglefrio, ond roedd swyddogion yn meithrin perthynas â darparwyr hysbys a thargedu eu dull gweithredu'n fwy gofalus i ddarpar gynigwyr. Gallent ofyn am brentisiaethau fel rhan o'r elfen gwerth cymdeithasol o gaffael, ac roedd prentis dylunio a gosod yn ei le a fyddai'n cysgodi'r gwaith hwn.

Clywodd yr aelodau mai nid manteision corfforol yn unig sydd i sglefrfyrrddio, a bod ymchwil yn dangos bod cyfleusterau sglefrio wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn galluogi pobl ifanc i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u cymuned. Nododd yr aelodau yr angen am oleuo parciau sglefrio'n dda, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, i annog defnydd drwy gydol y flwyddyn. Cytunodd swyddogion gyda hyn, er iddynt bwysleisio ei fod yn ddibynnol ar gyllid, a nodwyd y gellid defnyddio cyrffiw os oes angen ystyried pryderon trigolion.

Rhoddodd swyddogion fwy o wybodaeth am sut y nodwyd safleoedd addas, gydag ymgynghori eang gan gynnwys ymgysylltu â Chlwb Sglefrfyrrddio Caerdydd, a oedd wedi tynnu sylw at barc cymdogaeth yn Llanisien a oedd yn arbennig o addas at y diben hwn. Roedd cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus hefyd yn cael eu hystyried, a nodwyd bod sglefrfyrrddwyr yn tueddu i fod yn barod i deithio i'w cyrchfan.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd rhoi ystyriaeth bellach i'r ddarpariaeth yng Ngorllewin Caerdydd, o ystyried twf Plasdŵr a'r ddarpariaeth bresennol ym Mhentre-poeth. Eglurodd swyddogion y byddai'r ddarpariaeth ym Mhentre-poeth ac mewn mannau eraill yn welliant ar y ddarpariaeth bresennol a bod lle ar gyfer darpariaeth

'dotiau' a 'smotiau' ychwanegol, fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth, mewn lleoliadau ychwanegol pe bai angen.

Nododd yr Aelodau y dylid ystyried sut i sicrhau nad yw'r Strategaeth yn arwain at orblismona ardaloedd sglefrio anffurfiol, fel Sgwâr Callaghan a'r Sgwâr Canolog, pan fydd ardaloedd sglefrio ffurfiol ar waith; Mae'r Aelodau'n ymwybodol o'r angen am ardaloedd ffurfiol ac anffurfiol ac ni fyddent am i'r Strategaeth gael ei defnyddio i atal hyn. Nododd yr Aelodau gytundeb y Cynghorydd Burke o ran yr angen i ystyried hyn a sicrhau bod mannau anffurfiol ar gael.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 68 : DIWEDDARIAD AR LANFA'R IWERYDD

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi gwybodaeth gefndirol i'r Aelodau i'w cynorthwyo i graffu ar adroddiad drafft 'Diweddariad a Adfywio Glanfa'r Iwerydd', sydd i'w ystyried gan y Cabinet ar 18 Ionawr.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway (Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu), Neil Hanratty (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd), Donna Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ystadau'r Sir) a Chris Barnett (RhG Prosiectau Mawr).

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, cyn i swyddogion rhoi cyflwyniad i'r Aelodau.

Yn ystod y cyflwyniad, rhoddodd swyddogion y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymarfer profi'r farchnad ar gyfer ailddatblygu Canolfan y Red Dragon, a oedd wedi nodi cynigydd a ffefrir, a Strategaeth Parcio Ceir Glanfa'r Iwerydd, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu 1,300 o leoedd newydd a chadw 900 yn fwy. Cafodd yr amlen gyllido gwerth £35m, sy'n rhan o Strategaeth Ariannu'r Arena, ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Tachwedd, gan gynnwys cyllid ar gyfer y Maes Parcio Aml-lawr, ac roedd cyfle wedi codi i gaffael maes parcio aml-lawr Stryd Pen y Lanfa, y gellid ei gyflawni o'r amlen ariannol a gymeradwywyd. Amlinellodd swyddogion hefyd sut roedd risgiau posibl y cynigion hyn yn cael eu lliniaru.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Trafododd y Pwyllgor y gwaith o ddarparu tai, gyda swyddogion yn cadarnhau bod Llain 22 wedi'i dewis fel y safle mwyaf addas ar gyfer 500 o unedau. Roedd y safle hwn yn rhedeg ar hyd ochr Neuadd y Sir felly roedd yn amodol ar Neuadd y Sir yn symud, a byddai'n rhaid nodi safle arall pe na bai hyn yn digwydd. Dywedodd swyddogion y byddai'r penderfyniad ar ddyfodol Neuadd y Sir a'r penderfyniad ar 500 uned o ddarpariaeth tai yn cael eu gwneud ar yr un pryd, fel bod tryloywder ynghylch a fyddant yn mynd yn eu blaen. Eglurodd swyddogion hefyd fod y 500 o unedau yn ychwanegol at y gofyniad tai fforddiadwy o 20%.

Wrth sôn am Rodfa Lloyd George, clywodd yr Aelodau fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn bwriadu dechrau o'r dechrau gyda thudalen wag. Mae'n debyg mai eu hegwyddor gyffredinol fyddai lleihau'r ffordd gerbydau gan ei bod yn cael ei than-

ddefnyddio o ystyried ei maint, ond roedd hyn yn ddibynnol ar yr ymgynghoriad, ac roedd angen gwella dwy ochr y briffordd. Tynnodd yr aelodau sylw at y cyfle i wella'r llwybr cerdded i ganol y ddinas ac roedd rhai aelodau'n argymhell lonydd beicio ar wahân. Tynnodd swyddogion sylw at yr angen i sicrhau bod y dyluniad yn tywys pobl tuag at ganol y Rhodfa, gan leihau'r effaith ar drigolion lleol.

Trafododd yr aelodau ddarpariaeth parcio ceir, gan nodi bod nenfydau isel ym maes parcio Stryd Pen y Lanfa nad ydynt efallai yn addas ar gyfer cerbydau adeiladu. Eglurodd swyddogion fod trefniadau ar wahân yn cael eu gwneud ar gyfer cerbydau adeiladu, ac y byddent yn gweithio gyda'r arena i ddarparu lle ar gyfer cerdyn i weithwyr adeiladu. Roedd yr aelodau yn falch o glywed bod y partner adeiladu yn cael ei annog i recriwtio'n lleol lle bo hynny'n bosibl.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a fyddai staff y Senedd yn gallu parhau i ddefnyddio maes parcio Stryd Pen y Lanfa, gan nodi ymatebion swyddogion y byddent yn gallu, pe bai ganddynt brydles, ond fel arall byddai'n rhaid iddynt dalu, gan fod angen i'r Cyngor wneud y mwyaf o'i incwm o'r maes parcio i helpu i wrthbwysu costau eraill.

Roedd yr Aelodau'n meddwl tybed a allai fod gostyngiad mewn incwm parcio ceir o bosibl oherwydd argyfwng costau byw a chynnydd yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, a chlywed bod swyddogion yn hyderus y byddai lleoedd yn cael eu llenwi pan fydd digwyddiadau'n cael eu cynnal. Roedd eu strategaeth parcio ceir yn ceisio annog cyrraedd ar droed neu ar drafnidiaeth gyhoeddus gymaint â phosibl, ond roeddent yn cydnabod y byddai nifer benodol o bobl angen rhywle i barcio bob amser. Roedd un o'r atodiadau'n rhoi sylw manylach i barcio ceir, o ran defnydd dros amser a chynhyrchu incwm posibl.

Trafododd y Pwyllgor y gwaith o ailddatblygu Canolfan y Red Dragon a sut y byddai cynllun consortiwm Aviva yn cynyddu ei ddwysedd. Nid oedd yr Aelod Cabinet wedi cyfarfod ag Aviva eto, ond pan fyddai'n gwneud hynny, byddai'n pwysleisio'r angen i sicrhau nad oedd y dwysedd cynyddol hwn yn niweidiol i'r cynnig i deuluoedd. Roedd yn bwysig cynnig cyfleusterau fforddiadwy a deniadol er mwyn denu pobl i'r ardal am y diwrnod yn ogystal â'r nos. Awgrymodd yr aelodau y gallai parciau poced fod yn rhan o hyn.

Ar bwnc trafndiaeth i'r Bae, trafododd yr Aelodau y cynlluniau ar gyfer cyswllt uniongyrchol fel nad oedd angen i'r rhai sy'n dod o'r Cymoedd newid yn Heol y Frenhines. Awgrymodd yr aelodau hefyd y gallai trafndiaeth gyhoeddus sy'n dod o ochr ddwyreiniol Caerdydd fynd yn syth i'r bae cyn mynd drwy ganol y ddinas. Gofynnodd yr aelodau am y cynllun parcio a theithio ym Mhentwyn ac a fyddai hyn yn dychwelyd i'w rôl flaenorol fel cyswllt â chanol y ddinas; eglurodd swyddogion y byddai angen i gydweithwyr trafndiaeth ateb hyn ond eu bod yn ymwybodol bod cynlluniau parcio a theithio eraill yn cael eu trafod ar safle'r PChRh ac ar safle Parc Caerdydd. Trafododd yr aelodau yr effaith ar drigolion lleol a'r angen i osgoi ailadrodd y sefyllfa yn Grangetown pan gynhaliwyd digwyddiadau yn Stadiwm Pêl-droed Dinas Caerdydd.

Holodd yr aelodau a fu asesiad o'r maes parcio cyffredinol yn y cyffiniau ac asesiad ar effaith parcio ceir ar ddiwrnodau digwyddiadau ar hyn - beth fyddai'r effaith ar fusnesau lleol? Ymatebodd swyddogion y byddai'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau gyda'r nos, ond nododd yr Aelodau fod rhai digwyddiadau'n digwydd yn ystod y dydd, fel yr

Urdd, oedd wedi effeithio ar barcio ar gyfer busnesau a swyddfeydd lleol. Esboniodd swyddogion y gallai busnesau lleol brydlesu lleoedd ac felly gwarantu gofodau, ond fel arall byddai'r parcio ar sail y cyntaf i'r felin.

Nododd yr Aelodau fwriad y Cynghorydd Goodway i ofyn am adroddiad gan ei gydweithiwr Cabinet sy'n gyfrifol am drafndiaeth, gan edrych yn gyffredinol ar yr amrywiol ffactorau trafndiaeth, megis gwelliannau arfaethedig i drafndiaeth gyhoeddus, gan gynnwys y Metro a llwybrau bysus, parcio ceir, teithio llesol ac ati a'r cydadwaith rhwng y rhain, er mwyn sicrhau y bydd y ddarpariaeth drafndiaeth gyffredinol yn diwallu'r anghenion cyffredinol.

Tynnodd yr Aelodau sylw at dudalen 539 o'r pecyn, Atodiad 7, pwynt f, lle mae brawddeg yn dod i ben heb benderfyniad ac nid yw'r pwynt yn cynnwys barn gan yr ymgynghorydd cyfreithiol, tra bod barn yn cael ei mynegi yn yr holl bwyntiau eraill; Holodd yr Aelodau a oedd hyn yn gywir, o ystyried bod angen cyngor cyfreithiol ar bob pwynt yn yr Atodiad. Ymatebodd swyddogion y bydden nhw'n gofyn am gyngor gan y swyddog cyfreithiol.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 69 : DIWEDDARIAD AR Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi gwybodaeth gefndirol i'r Aelodau i'w cynorthwyo i graffu ar yr adroddiad drafft 'Diweddariad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin', sydd i'w ystyried gan y Cabinet ar 18 Ionawr.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd y Cyngor), Jon Day (RhG Twristiaeth a Buddsoddi), Louise Bassett (RhG Partneriaethau a Chomisiynu ar y Cyd) a Natalie Southgate (Arweinydd Tîm Cyflenwi Partneriaeth, Tai a Chymunedau).

Gwahoddwyd yr Arweinydd i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Clywodd y Pwyllgor y byddai peth arian heb ei ddyrannu yn cael ei roi o'r neilltu ar gyfer meithrin gallu cymunedol, h.y. i helpu gyda'r newid pe bai newid yn y sefyllfa ariannu, er enghraifft oherwydd newid llywodraeth yn genedlaethol. Cafodd yr aelodau eu calonogi gan y cynllunio wrth gefn hwn a hefyd amlygwyd y ffocws ar blant a phobl ifanc yn y cynllun cyllido fel un cadarnhaol.

Nododd yr Arweinydd ei fod wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ar lefel CLILC ynglŷn â'r risg na fydd y cyllid yn parhau, a daethpwyd i gytundeb eang bod angen gwarant blwyddyn, neu o leiaf arian ychwanegol i ganiatáu hyblygrwydd pe bai'n

rhaid iddynt drosglwyddo i fyd heb y CFfG. Roedd nifer o awdurdodau lleol yn ddibynnol ar arian y CFfG i ddarparu gwasanaethau craidd, er nad oedd Caerdydd yn un ohonynt. Cafodd yr angen i gynyddu cyflymder y gwariant ei gydnabod ar lefel ranbarthol yn ogystal ag yn lleol.

Gofynnodd yr Aelodau sut y gallent fod yn sicr bod yr alwad agored am gyllid yn cyrraedd cymaint o sefydliadau â phosibl, yn enwedig yn y sector celfyddydau. Roedd yr Arweinydd yn hyderus ei fod wedi cael ei hyrwyddo'n effeithiol, gydag ymgysylltu helaeth â'r trydydd sector, gan gynnwys trwy C3SC a digwyddiadau penodol yn Neuadd y Ddinas, ac roedd yr ystod o sefydliadau bach a gymerodd ran yn dangos hyn.

Trafododd y Pwyllgor sut y mesurwyd allbynnau a chanlyniadau, a sut i sicrhau y gellid cofnodi bod arian y CFfG yn cael ei wario'n dda. Esboniodd swyddogion fod amodau y CFfG yn gofyn am gasglu llawer o wybodaeth ar allbynnau a bod Caerdydd hefyd wedi alinio'r CFfG â meini prawf cryfach, tecach, gwyrddach y Cyngor, a fydd yn helpu i fesur a yw'r arian yn cael ei wario'n dda. Rhoddodd yr Arweinydd ei sicrwydd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn dod i graffu ar hyn, gan gynnwys edrych ar yr hyn oedd yn gweithio'n dda fel y gellid dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod hyder y byddai cyflymder y gwariant yn cael ei gynyddu'n ddigonol i osgoi tanwariant gan nodi ymateb yr Arweinydd ei fod yn weddol hyderus, yn seiliedig ar hanes da Caerdydd o dreulio amser, a'r gydnabyddiaeth yn ranbarthol o'r angen i gynyddu cyflymder y gwariant.

**PENDERFYNWYD** - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

**CYTUNWYD**: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

70 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Doedd dim.

71 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

27 Chwefror 2024 am 3pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 pm.